

Celfyddydau Gweledol

Collage o luniau

Dyma weithgaredd gwych i gael pobl i feddwl am eu gobeithion a'u dymuniadau. Mae cyfle iddyn nhw feddwl am y dyfodol neu greu breuddwyd lle mae unrhyw beth yn bosib!

- Argraffwch luniau o wynebau'r preswylwyr
- Ar ôl gwneud hyn, siaradwch gyda phob preswilydd am beth fyddai'n hoffi ei wneud fwyaf yn y byd
- Gall y preswylwyr edrych drwy hen gylchgronau neu luniau ar-lein y gallwch chi eu hargraffu, a chasglu lluniau i'w defnyddio i wneud llun
- Gall y preswylwyr wneud collage o'r lluniau, yn eu dangos yn gwneud y pethau mwyaf rhyfeddol!

Gallai'r preswylwyr deithio i'r gofod mewn roced, reidio ar gefn deinosor, neu ddim ond ymweld â pherthynas mewn gwlad bell.





Celfyddydau Gweledol

Gweithio gyda chlai

Mae clai yn ddeunydd gwych i breswylwyr weithio ag o. Mae'n dod mewn sawl ffurf a gwead ac mae'n gallu helpu i ymarfer cyhyrau llaw pobl hŷn.

Un gweithgaredd diddorol ydi creu darlun gan ddefnyddio clai fel canfas i weithio arno:

- Creu sgwâr o glai 15cm x 15cm a thua hanner modfedd o drwch
- Rhoi dewis o gerrig, cregyn, brigau, clipiau papur, beth bynnag allwch chi ddod o hyd iddo, i'r preswylwyr a'u hannog i wthio'r gwrthrychau i'r clai, gan greu eu llun clai eu hunain



Canfas mawr

Mae gweithio ar ganfas mawr yn gallu rhoi rhyddid creadigol i bobl, gan eu hannog i roi cynnig ar bethau newydd. Y ffordd orau i greu canfas mawr ydi prynu rholyn hir o bapur gwyn a gorchuddio bwrdd cyfan â'r papur.

Pan fydd y preswylwyr yn eistedd wrth y bwrdd, ewch ati i'w hannog i dynnu llun, paentio, printio, sgriblo a glynu unrhyw beth maen nhw eisiau ... ble bynnag maen nhw eisiau!

Ceisiwch roi rhai gwrthrychau ar y bwrdd i ysbrydoli syniadau newydd: brigau i dynnu llun gydag inc, dail a phaent ar gyfer argraffu, sbwng, sialc, ffyn siarcol, gwahanol frwshys.

Gall y preswylwyr weithio ar eu hadrannau eu hunain neu benderfynu uno eu lluniau / creadigaethau i wneud un darn mawr o gelf.





Celfyddydau Gweledol

Gwlân a ffelt

Os ydych chi eisiau gweithgaredd mwy heriol, gallech roi cynnig ar greu ffelt. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw gwneud pêl.

- Dechreuwch gyda darn 15cm o wlân a'i lapio rownd blaen eich bys, newid cyfeiriad a'i dynhau
- Rholiwch y bêl yng nghledr eich llaw nes ei bod yn wastad ac wedyn ei rhoi mewn dŵr sebon cynnes
- Daliwch i rolïo'r bêl yng nghledr eich llaw, gan ychwanegu pwysau i'w gwneud yn galetach
- Yn y diwedd, dylech fod wedi gwneud eich pêl ffelt eich hun. Os yw'n ddigon caled, dylai fownsio hefyd!
- Ar ôl i chi wneud sawl pêl ffelt, unwch nhw gyda'i gilydd gyda llinyn i wneud cadwen ffelt, neu eu defnyddio i greu gwahanol fath o *collage* neu lun





Celfyddydau Gweledol

Paentio a thynnu llun

Paentio a thynnu llun yw dau o'r gweithgareddau hawsaf, ond eto mwyaf effeithiol, i roi cynnig arnyn nhw.

Ceisiwch wneud y gweithgaredd yma'n fwy diddorol drwy ofyn i'r preswylwyr dynnu llun o amgylch eu dwylo ac wedyn paentio llinellau cledr eu llaw a'u bysedd fel maen nhw'n dymuno.

Un ffordd wreiddiol o dynnu llun yw tynnu llun ar wrthrychau na fyddech yn meddwl amdany'n nhw fel arfer: defnyddio paent acrylig ar ochrau gwydrau neu fygiau, neu binnau ffelt uwcholeuo i dynnu lluniau ar recordiau sydd wedi'u prynu mewn siopau elusen!

